



## CYNGOR BRO MORGANNWG

### DISGRIFIAD SWYDD

<b>DYNODIAD/TEITL Y SWYDD</b>	:	Cynorthwy-ydd Domestig Wrth Gefn
<b>RHIF Y SWYDD</b>	:	POB Rhif swydd Cynorthwy-ydd Domestig Wrth Gefn
<b>ADRAN/CYFARWYDDIAETH</b>	:	Gwasanaethau Cymdeithasol
<b>IS-ADRAN/CANGEN</b>	:	BMI
<b>LLEOLIAD</b>	:	Gwasanaethau Preswyl ledled Bro Morgannwg
<b>GRADDFA'R SWYDD</b>	:	Gradd A
<b>YN ATEBOL I</b>	:	Rheolwr Gofal/Swyddog Mewn Gofal/Dirprwy/Uwch Weithwyr Gofal/Cefnogi
<b>YN GYFRIFOL AM</b>	:	Amh.
<b>CYSWLLT</b>	:	Defnyddwyr gwasanaeth, Aelodau staff, Ymwelwyr â'r Cartref
<b>PRIF BWRPAS Y SWYDD</b>	:	Dyletswyddau domestig

### PRIF DDYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

*Mae'r disgrifiad swydd yn cyfeirio at brif ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r Swydd. Nid yw o angenrheidrwydd yn rhestru mewn manylder yr holl dasgau a fydd yn ofynnol er mwyn cyflawni'r dyletswyddau a'r chyfrifoldebau hyn.*

O dan gyfarwyddyd penodol neu gyffredinol y Person mewn Gofal, ymgymryd â'r dyletswyddau domestig sy'n gysylltiedig â gweithredu'r sefydliad, er lles cyffredinol y cleientiaid / preswylwyr drwy gynnal Amgylchedd Cartref boddhaol.

## DYLETSWYDDAU

- Hybu egwyddorion gofal
- Ymgymryd â dyletswyddau domestig cyffredinol. Bydd hyn yn cynnwys glanhau ffenestri a drysau gwydr mewnol, lloriau a charpedi, ystafelloedd gwely, ystafelloedd ymolchi, toiledau, arwynebau waliau, dodrefn ac eitemau eraill. Gall hyn gynnwys glanhau hylifau sy'n cael eu tywallt yn ddamweiniol a hylifau'r corff.
- Defnyddio deunyddiau ac offer yn unol â chyfarwyddiadau a chadw at gyfarwyddyd a gweithdrefnau perthnasol. Bydd hyn yn cynnwys gweithdrefnau rheoli heintiau a chanllawiau lechyd a Diogelwch a'r Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i lechyd (COSHH).
- Cynorthwyo gyda dosbarthu/cludo a gweini prydau bwyd, diodydd a byrbrydau yn ôl yr angen. Gall hyn gynnwys gyrru troli i gludo prydau bwyd neu ddiodydd.
- Cyfathrebu unrhyw bryderon am breswylwyr, ffabrig y cartref neu'r angen am archebu cyflenwadau glanhau i aelodau perthnasol y tîm.
- Darparu cymorth cyffredinol yn ystod ac ar ôl prydau bwyd, a bydd hyn yn cynnwys dyletswyddau fel gosod a chlirio byrddau bwyd.
- Glanhau ardaloedd cyffredin ble mae bwyd a diod yn cael eu paratoi a'u gweini a chynorthwyo gyda golchi eitemau o lestri a chyllyll a ffyrc yn ôl yr angen.
- Cydweithredu gyda'r rheolwyr a chydweithwyr a chymryd rhan yn y cyflwyniad a'r mentora i staff a gyflogir o'r newydd, staff cymorth neu staff asiantaeth, fel sy'n ofynnol o dro i dro.
- Mynychu goruchwyliaeth a chymryd rhan.
- Mynychu cyfarfodydd tîm a chyfleoedd hyfforddi/datblygu y tu allan i oriau Rota, fel sy'n ofynnol o dro i dro.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Ariannol, Gorchmynion Sefydlog, Polisiâu a Gweithdrefnau'r Cyngor.
- Cadw at Bolisi Cyfrinachedd y Cyngor.

- **Gweithredu egwyddorion Polisi Cyfleoedd Cyfartal y Cyngor wrth gyflawni'r dyletswyddau uchod.**
- **Cadw at ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch / polisiau a gweithdrefnau perthnasol y Cyngor a chymryd gofal rhesymol am eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac iechyd a diogelwch pobl eraill a all gael eu heffeithio'n niweidiol gan eich gweithredoedd / esgeulustod.**
- **Gweithredu egwyddorion Polisi Amgylcheddol y Cyngor wrth gyflawni'r dyletswyddau uchod.**
- **Adrodd yn ôl yn ddi-oed am unrhyw bryderon diogelu i'r swyddog diogelu priodol.**
- **Unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau eraill fel sy'n berthnasol i raddfa'r swydd ac yn unol â'i chymeriad cyffredinol, fel y gofynnir yn rhesymol gan y Prif Swyddog o dro i dro.**

**LLOFNOD:**  
**(Cyfarwyddwr/Prif Swyddog)**

**DYDDIAD:**

**LLOFNOD:**  
**(Deiliad y Swydd)**

**DYDDIAD:**